**26.11.20**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; GW; TAJ; JOJ; RJ; EO; AR; BJ<br><br>**Ymddiheuriadau:** DL; IW; DP<br><br>**Mynychu:** SWR Cyng John Griffith<br><br>Dymunwyd adferiad iechyd buan iawn i'r Cyng Ifan Williams yn dilyn ei gyfnod yn yr ysbyty. Nododd y Clerc ei bod wedi anfon cyfarchion y Cyngor ato eisoes. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. |
| **3** | **Cofnodion 30.9.20**<br><br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 29 Hydref 2020 fel rhai cywir (TAJ/DAW) yn dilyn cywiro<br><br>Tud 1 Sul y Cofio – Lligwy Jones *i ddarllen* Lligwy Davies<br><br>b) Materion yn codi<br><br>**Croesfan yn y pentref** – cafwyd diweddariad gan Cyng JG.<br><br>Adroddodd ar drafodaethau mae wedi cael gydag Alun Roberts Swyddog Priffyrdd CSYM ynglŷn â chael croesfan i'r pentref. Derbyniodd y sylwad isod:<br><br>'*Wedi'r penderfyniad i ddileu'r gwasanaeth croeswr/ lolipop yna edrychwyd ar y lleoliad lle oedd y plant yn croesi'r B5111 ger Twrcyhelun wrth fynd a dod o'r ysgol. Er y ceir safle croesi yma (kerbs wedi eu gostwng), oherwydd diffyg lled yn y palmant mae'n amhosib uwchraddio hwn i unrhyw fath o safle croesi wedi ei reoli fel zebra, Nid yw yn opsiwn chwaith lledu'r palmant yn yr ardal yma.* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | *Bydd Stryd Wellington yn cael ei wneud yn barth 20mya a byddwn yn edrych i gyflwyno mesurau atal parcio lle mae'r safle croesi ger y gyffordd gyda B5111. Nodir fod ceri yn aml yn parcio ar draws y safle croesi yma.*<br><br>*Yn ddibynnol ar ddefnydd gan gerddwyr a llif traffig ynghyd a chyllideb gellir edrych ar welliannau i safleoedd croesi ar y Stryd Fawr.*<br><br>Nododd JG bydd yn parhau i gysylltu ag Alun Roberts am ddiweddariad. Cytunwyd hefyd y byddai'n fuddiol i drefnu ymweliad safle arall i drafod gofynion Priffyrdd yn y pentref. Cytunodd JAJ/RJ i gwrdd â'r swyddog.<br><br>**Lon Pencefn** – nododd y Cadeirydd y bu trafodaeth ar gyflwr gwael y ffordd yma ond nad oedd wedi ei gofnodi – ymddiheurodd y Clerc. Cytunwyd i ddwyn i sylw Adran Priffyrdd CSYM.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 26.11.20 |
| **4** | **Rheolaeth**<br><br>➢ **Sedd Wag**<br><br>Nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw enw ar gyfer y sedd wag o fewn y dyddiad cau i gyfethol. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymhellach ac i anfon enwau posib at y Clerc mor fuan a bo modd. Ymlaen i'r cyfarfod nesaf neu gynnal trafodaeth dros e-bost os bydd angen. |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>TAJ - adroddodd bod golau stryd ger Y Garth ddim yn gweithio - Clerc i gysylltu â CSYM<br><br>JG – diweddarwyd yr aelodau ar y gweithgaredd canlynol perthnasol i'r Cyngor Sir:<br><br><u>COVID 19</u> – achosion wedi cynyddu yn ystod Hydref/Tachwedd ar draws yr Ynys. Llannerchymedd wedi ei effeithio yn arw. 18 mil o brofion wedi eu cynnal gyda 900 yn brofion positif – sef 4.9%<br><br><u>Comisiwn Ffiniau</u> – mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei ddyfarniad (copi caled ar gael gan y Clerc). Bydd cynnydd o 3 ward a 5 aelod o fis Mai 2022. Talybolion yn aros fel y mae heblaw am colli Bodedern fydd yn symud i fod yn rhan o ward newydd sef Bro'r Llynnoedd gyda 2 Gynghorydd.<br><br><u>Cwrs Golff Llangefni</u> – cyfnod ymgynghori ar ddyfodol y Cwrs Golff yn dod i ben 30.11.20 – modd cyfrannu ar wefan y Cyngor Sir<br><br><u>Gwastraff Gwyrdd</u> – bydd y ffi casglu £35 yn dechrau Ebrill 2021 – |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | pecyn gwybodaeth i ddilyn.<br><br><u>Wylfa Newydd</u> - cwmni Bechtell wedi dangos diddordeb mewn buddsoddi ond mae cryn dipyn o drafodaeth i'w wneud eto. Horizon, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod lleol yn rhan o'r trafodaethau.<br><br>Diolchodd JG i'r aelodau am ddangos eu gwerthfawrogiad o waith Arweinydd y Cyngor a'r holl staff yn ystod y misoedd pryderus diwethaf gyda COVID 19<br><br>RJ - adroddodd bod slab wedi codi ger y Gofeb - cytunodd JAJ a RJ i edrych ar y gwaith<br><br>BJ - adroddodd ei bod wedi derbyn cwyn am lygod mawr tu cefn i fflatiau Stryd Twrcelyn. Hefyd bod cryn lanast yn rhai o'r gerddi sydd o bosib yn hudo'r llygod. Clerc i adrodd i CSYM<br><br>Adroddodd hefyd ar fenter gwirfoddolwyr COVID 19 ar y cyd gyda Caffi Stesion i ddarparu prydau bwyd am ddim i drigolion Tan y Foel. Dywedodd bod bwydlen wedi ei chytuno a bydd y prydau yn cael eu dosbarthu ar ddydd Mawrth trwy gydol mis Rhagfyr. Bydd trigolion yn archeb eu bwyd cyn dydd Gwener yr wythnos flaenorol a bod 15 wedi archebu hyd at heddiw ar gyfer 1.12.20. Ariennir y prosiect gan grant COVID 19. Cyfeiriwyd at y daflen i hysbysu'r prosiect ac fe ymddiheurodd BJ bod y daflen yn nodi mai C C Llan oedd yn trefnu. Nodwyd siom nad oedd y prosiect yn agored i holl bobl fregus Llan ond fe gydnabuwyd y gellid edrych ar hwn fel peilot ac ystyried ei ymestyn yn y flwyddyn newydd yn ddibynnol ar ei lwyddiant ac ar y sefyllfa gyllidol. Clerc i'w roi ar raglen mis Ionawr 2021<br><br>Cyfeiriodd BJ at y banciau bwyd/anrhegion a theganau mae Medrwn Môn yn ei gydlynu i helpu rhai ffodus yng nghymunedau Môn a bod modd cyfrannu tuag atynt. Pwysleisiodd hefyd bod nifer o deuluoedd bregus yn Llan.<br><br>Diolchwyd i BJ am y diweddariad ac am ei gwaith da ar ran trigolion Llan.<br><br>AR – dymunodd ddiolch i bawb am eu gwaith yn trefnu gwasanaeth Sul y Cofio eleni. Dywedodd bod y llif byw ar y Gweplyfr yn llwyddiant mawr a bod nifer wedi ei wylio – ymhell ac agos.<br><br>JAJ - nododd bod y Clwb Peldroed wedi gwario £500 ar wella'r ystafelloedd newid.<br><br>- nododd bod y torchau ar gyfer Sul y Cofio wedi costio £85 a bydd Mr R Owen yn cael y gydnabyddiaeth arferol am ofalu am Cae Gofeb sef £100 - y ddau daliad hyn o bwrs yr Ymddiriedolaeth.<br>- Cyfeiriodd at y 40 m.y.a. heibio ffordd at Plas Carmel - cytunwyd i drafod hyn gydag Alun Roberts pan fydd ymweliad wedi ei drefnu. |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| 6 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Gwariant ers cyfarfod Hydref:**<br><br>**Scottish Power –** trydan goleuadau Nadolig - £26.41<br><br>**Biliau cyfredol:**<br><br>➢ Bwrdd Dwr – cyflenwad i'r Fynwent - £28.43<br><br>➢ Scottish Power – tryden Uned 1 Tan y Foel - £64.73<br><br>➢ Cyflog Clerc – Hydref Tachwedd Rhagfyr - £1109.20 ac 4 taliad i Zoom – £14.39 X 4 = £57.56 Cyfanswm i'w dalu yn Rhagfyr – £1166.66<br><br>Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.<br><br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan y BDO (Archwilwyr Allanol) yn cadarnhau bod y cyfrifon am 2019-20 bellach wedi eu cymeradwyo. Nododd ei bod wedi rhannu'r e-bost gyda'r aelodau eisoes. Cytunwyd yn unfrydol i'w derbyn. Bydd y Clerc yn cwblhau'r broses weinyddol dros y dyddiau nesaf. Diolchwyd i'r Clerc a Mr Eryl Williams am eu gwaith.<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol. |
| 7 | **Unrhyw Fater Brys Arall**<br><br>➢ Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn pryder bod rhai trigolion sydd yn defnyddio cadair olwyn yn cael trafferth i gael mynediad at y siopau yn y pentref. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Swyddog Mynediad CSYM i ofyn am arweiniad a chyngor.<br><br>➢ Nodwyd yn unfrydol bod trefniadau cyfredol ZOOM yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau COVID presennol.<br><br>Cytunwyd i beidio cynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr yn ôl y drefn arferol. Nododd y Clerc ei bod mewn cyswllt cyson gyda'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd i dderbyn unrhyw arweiniad. Nododd hefyd bod modd trefnu cyfarfod ZOOM ar fyr rybudd pe cyfyd yr angen.<br><br>Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iach a diogel i bawb<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.40* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

5